

LEWIS, WILLIAM (1835? - 1918), argraffydd a chyhoeddwr llyfrau, Caerdydd;

Enw: William Lewis
Dyddiad geni: 1835?
Dyddiad marw: 1918
Plentyn: Sidney William Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyhoeddwr llyfrau
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Tewkesbury, swydd Gaerloyw. Bu'n gweithio mewn siop lyfrau yn Cheltenham cyn dyfod i Gaerdydd i weithio dros y ffyrn argraffu a sefydlasid gan [John Bird](#) yn 1791. Yn 1866 trosglwyddwyd y fusnes gan Hugh Bird i ddau o'i wasanaethyddion, sef William Lewis a John Williams, a fu'n gyd-bartneriaid hyd 1873, pryd y daeth y fusnes yn eiddo i William Lewis yn gyfan gwbl. Llwyddodd y fusnes yn fawr o dan William Lewis gan ymehangu a dyfod, yng nghwrs amser, y fusnes argraffu a chyhoeddi fwyaf yng Nghymru. Ymddeolodd William Lewis yn 1913 (fe'i dilynwyd ef gan ei fab hynaf, Sidney William Lewis), a bu farw 4 Chwefror 1918 yng Nghaerdydd.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Ifano Jones, 'The House of Lewis,' yn *The Pointer (Issued from the House of Lewis by the Sales Promotion Department.)* (Caerdydd Hydref 1922), Hydref 1922

id., *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734671](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

